# DINESYDD

## Mehefin

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

RHIF 68


# CAMP MARTIN SANT

Bu cystadlu brwd yng Ngholeg y Llyfrgellwyr, Aberystwyth yn ddiweddar, pan gynhaliwyd rowndiau terfynol y Cwis Llyfrau Cymraeg ar gyfer ysgolion uwchradd Cymru. Trefnwyd y gystadleuaeth, fel arfer, gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg, a daeth plant o bob cwr o Gymru i Aberystwyth dridiau cyn y Pasg, i dreulio ychydig ddyddiau yn cymdeithasu ac yn ymgiprys am y prif wobrau.

Rhennir y cystadlaethau'n ddwy - rhai ar gyfer plant ail-iaith, a'r gweddill ar gyfer y disgyblion sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Cynrychiolwyd Morgannwg Ganol, yn y ddwy gystadleuaeth ail-iaith, (dros 15, ac hefyd yn y gystadleuaeth agored) gan Ysgol Gyfun Martin Sant, Caerffili, a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Ym 1978, daeth dau dîm o'r ysgol hon yn ail yn y ddwy gystadleuaeth ail-iaith. Yna y llynedd cafwyd buddugoliaeth yn y gystadleuaeth agored. Felly roedd cryn ddisgwyl eleni y byddai'r tîm yn mynd yn ôl i Aberystwyth, ac yn cipio'r tlws am yr ail waith yn olynol - ond haws dweud na gwneud.

Bu'r ysgol yn dra llwyddiannus yn y rowndiau sirol - enillodd y ddau dîm eu cystadlaethau, a dim ond pythefnos oedd gan y timau i baratoi at y rownd derfynol. Treuliwyd pob egwyl a phob awr ginio yn ceisio dod i ben â'r gwaith, a theg yw dweud na fyddai hynny wedi bod yn bosib heb frwdfrydedd a dyfalbarhad y plant. Yn anffodus, collwyd un aelod o'r tîm agored yn union cyn y gystadleuaeth, a bu'n rhaid perswadio cyd-ddisgybl yn y chweched dosbarth i ymuno â'r tîm ar y funud olaf. Bu raid i hwnnw lyncu'r llyfr gosod 'Sion Gwalia', gan Ifor Owen mewn llai na thridiau.

Roedd y safon yn arbennig o uchel ymhob adran eleni, gyda chwe thîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth ail-iaith dan bymtheg, a phedwar yn y gystadleuaeth agored. Yr anhawster mwyaf sy'n wynebu'r timau ail-iaith, yw eu bod yn hannu o ardaloedd ac ysgolion mor wahanol - daw rhai o sir Fôn, ac eraill o Ddolgellau neu Grymych, hynny yw plant sydd â'r fantais o glywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol o ddydd i ddydd. Daw'r plant eraill o ardaloedd fel Castell Nedd, Prestatyn a Chaerffili, lle na chânt fawr o gyfle i glywed y Gymraeg, y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Tipyn o benbleth a rhyfeddod i blant Caerffili, oedd yr ymdrech i wneud pen a chynffon o ymadroddion fel 'wast o bres' neu 'smo fi moyn mynd'. Ond er gwaetha'r problemau, cafodd y ddau dim o Gaerffili lwyddiant ysgubol, gan gipio'r wobr gyntaf yn y ddwy gystadleuaeth. Cyflwynwyd tocyn llyfr i bob aelod o'r tîm, ynghyd â tharian yr un. Rhoddwyd dau dlws i'w cadw yn yr ysgol am flwyddyn.
Cystadlu, nid ennill sy'n bwysig wrth gwrs. O safbwynt y plant, mae cymryd rhan yn y cwis, dysgu'r llyfrau, a chael cyfle gwych i ddefnyddio'r Gymraeg, yn rhoi hyder mawr iddynt ac yn gloywi eu hiaith. Sylweddolant mai pwnc ymarferol yw'r Gymraeg ac nad pwnc academaidd yn unig mohono. Y gobaith yw y byddant yn elwa ar y profiad, yn parhau yn yr ymdrech i ddysgu'r iaith, ac y byddant cyn bo hir yn llwyddo i groesi'r bont.

Aelodau'r tîm:



Dan 15: Jenny Smart, Jeanne [illegible], Carolyn Reeves, Suzanne Berry.



Dros 15: Penny Bradfield, June Watkins, Brendan Hourihan, Peter Williams.

Gyda'u hathrawes, Mrs. Nia Llwyd Williams (yn y canol)

# —Y CALENDR—

Mehefin

6ed CYFEILLION CYMREIG YR ANGHENUS : CYNGERDD gan GANTORION PONTYCLUN, i'w ddilyn gan SWPER yn Neuadd YSGOL UWCHRADD ESGOB LLANDAF, Gwener, 6ed Mehefin, 1980, am 7.30 p.m. Tocynnau: £2. Ffonier (890336) neu (561698) fin nos.

6ed YSGOL GYMRAEG GLANTAF :'PREMIERE' TIPYN O NWY, gan Urien Wiliam, STIWDIO DDRAMA POLYTECHNIG Y BARRI, 7.15 p.m.

18fed YSGOL GYMRAEG GLANTAF : CYNGERDD ac ARDDANGOSFA, Neuadd y Ddinas, 7.15 p.m.
Tocynnau am y Ddrama a'r Cyngerdd o'r Ysgol,(Tel: 562879)

21ain YSGOL GYMRAEG MELIN GRUFFYDD : FFAIR HAF, yn yr Ysgol,2.00.

21ain CWMNI DAWNS WERIN, AELWYD CAERDYDD : GWYL IFAN, NANT GARW. 3.00 - 6.00. PARTION O LED-LED CYMRU.

25ain CWMNI DAWNS WERIN, AELWYD CAERDYDD : TWMPATH, CLWB TRYDAN, PONTCANNA. 7.30 - 11.30. BAR. TOCYNNAU : 75c. DRYSAU'N CAU AM 9. Twmpath olaf cyn ymweld â Salzburg. Dawnsiau arddangosiadol. Elw at dreuliau Salzburg.

28ain YSGOL GYMRAEG GLANTAF : FFAIR HAF, yn yr Ysgol, 2.00 p.m.

Rhaghysbysiad

Tachwedd

8fed EISTEDDFOD CAERDYDD : NEUADD GOFFA RHIWBEINA.

Rhaghysbysiad am 1981 :

Chwefror
6 - 8 PENWYTHNOS GYMRAEG YN LLANGRANNOG a Tachwedd 20 - 21.

CROESO O'R FRO I'R BWRLWM

Mae eu llu cyfeillion yn falch deall fod Martin a Delyth Williams yn bwriadu ymgartrefu eto yng Nghaerdydd ar ôl bod am beth amser yn y fro Gymraeg, draw tua Llangeitho. Maen nhw wedi prynu tŷ yn Heol Don - cyfleus i'r gŵr jogian i'r gwaith, medden nhw, gan fod y BBC mor agos.

CROESO I BETHAN

Dyna'r enw a ddewiswyd i chwaer Iwan, plentyn a anwyd yn ddiweddar i Babs ac Aled Evans, Penylan. Daw Aled yn wreiddiol o Landudno ac mae'n dysgu ym Mhentwyn. Daw Babs o brifddinas gogledd Cymru, Lerpwl. Mae'r Dinesydd yn llongyfarch y tri ar y newydd ddyfodiad.



Awdur yr erthygl : Eifion Thomas

# NEWYDDION CWM RHYMNI

## ANRHEG BENBLWYDD I'R DINESYDD

Yn ystod mis Ebrill eleni dathlodd Y Dinesydd ei benblwydd yn saith oed, ac felly ef yw'r hynaf o bapurau bro Cymru. Mae Cwm Rhymni yn ymhyfrydu yn hyn ac fel rhyw anrheg benblwydd i'r papur mae naw ar hugain o blant y cwm wedi bod yn gosod trefn ar hanes y papurau bro trwy help y Llyfrgell Genedlaethol, Golygyddion y mwyafrif o'r papurau bro ac eraill. Mae'r plant, drwy law Eifion Thomas o Ysgol Gymraeg Caerffili, am gyflwyno eu sylwadau i'r papur.

"Y mae na bedwar deg saith papur bro Cymraeg. Pedwar deg yng Nghymru, dau y tu allan i Gymru a phump wedi mynd i'r gwellt. Dyma'r pump sydd wedi mynd i'r gwellt : YR ANCR, BRO YSTWYTH, Y GLORAN, LLAIS DINEFWR a'r SOSBAN. Dyma'r ddau bapur sydd tu allan i Gymru, ANGOR, papur bro Glannau Merswy a NINNAU, papur bro Cymry Gogledd America. Dyma enwau y papurau bro sydd yng Nghymru : YR ANGOR (Aberystwyth), Y BARCUD, Y BEDOL, BLEWYN GLAS, CLEBRAN, CLECS Y CWM A'R DREF, CWLWM, DAIL DYSYNNI, Y DINESYDD, Y DDOLEN, ECO'R WYDDFA, Y FFYNNON, Y GADLAS, GLO MAN, Y GLORIAN, LLAFAR BRO, LLAIS AERON, LLAIS ARDUDWY, LLAIS OGWAN, LLANW LLYN, LLEU, Y'LLIEN GWYN, Y LLOFFWR, NENE, YR ODYN, PAPUR FAMA, PAPUR MENAI, PAPUR PAWB, Y PENTAN, PENTIGILI, PETHE PENLLYN, PLU'R GWEUNYDD, Y POST, Y RHWYD, Y TINCER, WILIA, YR WYLAN, Y CARDI BACH, LLAIS A'R YSGUB.

O gofio am y pedwar deg saith papur bro sydd wedi gweld golau dydd mae dau ar bymtheg yn Nyfed, pymtheg yng Ngwynedd, pedwar yng Nghlwyd, tri ym Mhowys ac yng Ngorllewin Morgannwg, dau yn Ne Morgannwg a thu allan i Gymru, un yng Nghanol Morgannwg a dim un yng Ngwent.

Ymddangosodd y papur bro cyntaf yn Ebrill 1973. Y DINESYDD oedd e. Wedyn yn Hydref 1974 ymddangosodd LLAIS OGWAN a PAPUR PAWB; yn Rhagfyr ymddangosodd CLEBRAN a PETHE PENLLYN. Yn Ebrill 1975 LLAIS ARDUDWY a LLAIS DINEFWR; ym mis Mai, LLEU; mis Mehefin, YR ANCR, ac ym mis Hydref, LLAFAR BRO, YR ODYN a'r SOSBAN. Daeth BRO YSTWYTH yn Nhachwedd. Yn 1976 ymddangosodd Y GADLAS yn Ionawr; yn Chwefror, ECO'R WYDDFA; ym Mawrth, LLANW LLYN; yn Ebrill, Y BARCUD; ym Mai, Y POST; ym Mehefin, Y FFYNNON ac ym mis Hydref, CLECS Y CWM, LLAIS AERON a PAPUR MENAI. Yn ystod 1977 ymddangosodd WILIA ym Mehefin; ym mis Medi, GLO MAN, Y TINCER a'r WYLAN; mis Hydref, YR ANGOR (Aberystwyth) a'r GLORAN; ym mis Rhagfyr, Y BEDOL a'r GLORIAN. Ym mis Chwefror 1978 daeth NENE; ym mis Mawrth daeth Y BLEWYN GLAS; yn Ebrill, CWLWM; Medi, Y DDOLEN; Tachwedd, Y LLOFFWR a PLU'R GWEUNYDD ac yn Rhagfyr, PENTIGILI. Yn Ionawr 1979, DAIL DYSYNNI, Ebrill, PAPUR FAMA; Mehefin, ANGOR (Glannau Merswy); Hydref, Y LLIEN GWYN; Tachwedd, Y PENTAN, Y CARDI BACH a'r RHWYD; yn Rhagfyr, LLAIS. Ym Mawrth eleni daeth YR YSGUB ac mae son am ddau arall ECo BACH,Caernarfon (mis Mai) ac un ym Mangor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Pwrpas y papurau ydy cael mwy o'r iaith Gymraeg yn ein gwlad ac i gael mwy o'r bobl i'w siarad ac i ddarllen y Gymraeg. Rydw i'n meddwl fod y syniad yn un arbennig, ac rydw i'n gobeithio bydd y syniad yn mynd ymlaen am lawer o flynyddoedd i ddod".

# Mrs. M. A. Powell

Fel y gwelsoch yn y rhifyn diwethaf, bu farw ddiwedd Mawrth un o ffyddloniaid y Tabernacl, sef Mrs. M. A. Powell, Radur, mam y Barnwr Dewi Watcyn Powell. Bu'r wraig ddiwylliedig hon yn ddiwyd yn ei chapel a chyda'r mudiadau Cymraeg, megis yr Urdd y bu'n un o'i threfnyddion gwirfoddol yn y ddinas yn nyddiau cynnar y Mudiad. Da gennym gyhoeddi isod deyrnged iddi gan un o'i chyd-aelodau yn y Tabernacl.

Ganwyd Mrs. Powell yng Nghlydach. Roedd yn chwaer i'r Athro Morgan Watkin, Caerdydd, ac i'r Parchedig W.R. Watkin, Llanelli. Cafodd ei haddysg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, a bu'n athrawes yn Ysgol Ramadeg Hendygwyn ar Daf ac Ysgol Ramadeg Aberdâr.

Bu'n amlwg mewn nifer o Gymdeithasau sef Mamau a Merched Cymru; Merched y De (Dirwest); Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru. Bu'n flaenllaw ym Mudiad Mamau a Merched Cymru yn ystod yr Ail Rhyfel Byd yn yr ymgyrch i gasglu £1,000 i waddoli Ward Llanbradach yn yr Ysbyty Brenhinol yng Nghaerdydd. Hi a ddewiswyd i agor y Ward.

Bu'n aelod am flynyddoedd o Gymdeithas Anrhydeddus y Cymrodorion, Llundain, ac yn Llywydd Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd, 1936-7.

Bu'n ddiacon yn y Tabernacl er 1949 ac yn athrawes Ysgol Sul am gyfnod o 55 o flynyddoedd. Am hyn cafodd ei anrhegu ym 1972 â'r Fedal Gee. Yn y Tabernacl fe'i cofir hi fwyaf am ei gwaith fel diacon ac fel athrawes Ysgol Sul. Roedd ganddi ddosbarth o famau a chwiorydd yr Eglwys, pob un yn fawr ei pharch a'i serch tuag ati. Mae pob aelod o'i dosbarth yn barod i gydnabod ei dyled iddi am rannu o'i gwybodaeth eang â nhw. Roedd yn awyddus iddynt ddysgu hanes a neges yr Efengylwyr. Byddai'n rhaid mynd ar ôl gwraidd Lladin geiriau pwysig y bennod a defnyddio'r atlas i ddilyn teithiau Paul - ei hoff destun.

Roedd ganddi ddiddordeb mawr ym mhlant a phobl ifanc y Tabernacl, yn falch o bob llwyddiant ac yn barod iawn â'i llongyfarchiadau a geiriau o gyngor. Roedd ganddi gof rhyfeddol a dangosai ddiddordeb caredig ym mhob aelod o'r teulu - roeddem i gyd yn blant iddi yn nheulu mawr y Tabernacl.

Cofiaf ei chroeso cynnes a'i geiriau caredig i mi wrth ymgymryd â'r gwaith o ddysgu dosbarth Ysgol Sul.

O'r lleiaf i'r hynaf gwelwn eisiau ei geiriau doeth o gyngor a'r wên siriol bob amser. Braint oedd cael ei hadnabod.


**Cofiwch am Y DINESYDD**

**Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:**

**Shân Emlyn — 751469**
**Gwyn Lewis Davies — 756882**
**E. Gunston Jones — 499469**
**T. Raymond Edwards — 563588**

**Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.**




## *Anfonwch eich defnyddiau!*

**O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT.** *Dyw hi byth yn rhy gynnar* **a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella ERBYN YR 8fed O BOB MIS. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.**


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL



*AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU*

*AMGUEDDFA WERIN CYMRU*

CYNORTHWYDD CLERIGOL

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth deipyddion profiadol am y swydd uchod yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Byddai gwybodaeth o waith cyffredinol mewn swyddfa yn fantais ychwanegol ynghyd a'r gallu i deipio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyflog ar raddfa £53.00 - £64.32 yr wythnos. Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth yr Is-Ysgrifennydd, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau: Dydd Sadwrn, Mehefin 7.

YSGRIFENNYDD/YSGRIFENYDDES

Gwahoddir ceisiadau am swydd fel ysgrifennydd/ysgrifenyddes Adrannol yn Amgueddfa Werin Cymru. Disgwyliwn am berson aeddfed, gyda'r gallu i weithio ar ei ben ei hun wrth gyflawni dyletswyddau ysgrifenyddol, ac a fydd yn barod i edrych at amryw orchwylion. Rhaid wrth wybodaeth drwyadl o Gymraeg llafar ac ysgrifenedig. Byddai meddu ar gymhwyster audio/llaw fer yn fantais ychwanegol. Cyflog: £3,474 - £4,293. Gwyliau hael (blynyddol a chyhoeddus). Cynllun pensiwn. Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth Yr Is-Ysgrifennydd, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau: Mai 30, 1980.

## CYMRAES O GANADA

Mae'n ymddangos 'mod i dipyn yn od : Canadiad yn ymfudo, o wirfodd, i Gymru. Ac fel y cyfryw un y gofynnwyd i mi 'nghyflwyno fy hunan yn yr erthygl hon, ac, efallai, f'esbonio fy hunan hefyd.

I gychwyn, dwy'i ddim yn hollol ddiarth yng Nghymru. Cymro yw 'nhad, o'r Rhiwlas ger Croesoswallt, a roedd ein cartref yng Nghanada - ac y mae o hyd - yn llawn o drysorau o Gymru, o'r hwyl Cymreig, ac o ymwelwyr o Gymru. A dweud y gwir, bydd y teulu yn aml yn cyfeirio at y tŷ fel Gwesty Cymry ar Wasgar. Rwy'n gwneud ymdrech lew hefyd i ddysgu Cymraeg, a bum yn ymlafnio wrthi er 1977. Yn fy sêl, llwyddais i fynd ynghlwm â threfnu cyrsiau dysgu Cymraeg a digwyddiadau Cymreig yng Ngogledd America; nid gwaith hawdd, ond boddhaol er hynny. Mewn gwirionedd, dysgu Cymraeg, mae'n debyg, yw un o'r ddau brif reswm pan y des i yma i fyw.

Y rheswm arall yw mai fi yw Swyddog Marchnata newydd-ei-benodi Theatr Sherman, Caerdydd. Dim ond ychydig ddinasoedd o unrhyw faint sy'n ddigon lwcus i fod â lle mor amlochrog ei gyfleusterau ac y mae gweithio yno yn rhoi cyfle bendigedig imi.

A dyna'r rheswm pan y symudais i a'm gŵr i Gymru yn Ebrill. Anos dweud yn gryno pam na fu'r symud yn edifar gennym. Mewn dyddiau pan glywir eto'r athroniaeth, "Go West, young man", buom ni dipyn yn wrthnysig, a mynd tua'r gwyrain.

Fu hi ddim yn flin gennym wneud y penderfyniad. Yn broffesiynol, mae'n gyffrous cymhwyso technegau Canada mewn lleoliad Cymreig, - a mae cyfnewid syniadau yn ddiddorol dros ben. Yn gymdeithasol, mae 'Nghymraeg i'n gwella pe na bai ond am fod gen i'r cyfle i'w defnyddio'n amlach. Ac yna, mae ansawdd a dull byw yma mewn llawer ffordd yn well nag un Gogledd America, er efallai nad yw'r Cymry eu hunain yn sylweddoli hyn. Mewn diwydiant ac amaethyddiaeth, rhoir sylw o hyd i fanylion ac i ansawdd; yn y cartref, mae'r "teulu" a "chymdogaeth dda" yn dal yn bwysig.

Mae'n anochel fy mod i, Canadiad o Gymraes a gyrhaeddodd yn ddiweddar, yn gweld Cymru mewn ffordd wahanol i lawer ohonoch chi. Bu Gogledd America, efallai, am ganrifoedd yn Wlad yr Addewid i'r Cymry, ond i ni, Cymru yw'n Gwlad o Laeth a Mel newydd. O ddewis y symudodd fy ngŵr a minnau yma, ac fe dybiwn ni y bydd yn ddewis da. Mae Cymru'n cynnig llawer i ni, ac fe'i derbyniwn yn fodlon.

- Jane Sharpe.

Western Mail



## CÔR GODRE'R GARTH

Cafodd Côr Godre'r Garth daith lwyddianus iawn yng Ngogledd Cymru yn ystod gwyl y Pasg. Cynhaliwyd cyngherddau am dair noson - ar y nos Wener ym Mlaenau Ffestiniog gyda Dafydd Williams yn arwain y noson; ar y nos Sadwrn ym Mhorthmadog - dan arweiniad Penri Williams; ac i orffen y daith yng Nghapel Moreia Llangefni i gynulleidfa o dua phedwar cant. Arweinydd y noson oedd George Peter Rowlands. Cafwyd gwerthfawrogiad gwresog iawn gan y gynulleidfa. Fel rhan o'r cyngerdd canwyd gwaith gan Vivaldi, 'Gloria', a rhan o waith Rossini, 'Messe Solennelle'. Canwyd y gweithiau hyn yn Gymraeg - geiriau a gyfieithwyd yn arbennig ar gyfer y côr. Canwyd hefyd amrywiaeth o ganeuon gwerin megis 'March Glas' ac 'Ym Mhontypridd mae Nghariad'. I orffen y cyngerdd canwyd yr Anthem 'Dyn a Aned o Wraig' gan Christmas Williams. Yr unawdwyr oedd Alwena Roberts (Soprano), Ann Humphreys (Soprano) a Beti Treharne (Contralto). Perfformiwyd amrywiol eitemau unigol megis Unawd Tenor gan Arwel George, Canu Gwerin gan Dafydd Idris, Unawd Clarinet gan Catrin Rowlands, Unawd Telyn a Cherdd Dant gan Alwena Roberts a deuawd gan Ann Humphreys a Beti Treharne.

Mae'r côr ar hyn o bryd yn ymarfer a pharatoi tuag at Eisteddfod Dyffryn Lliw. Os oes diddordeb gan unrhyw un, dewch i ymuno gyda ni yn ein hymarferion am hanner awr wedi saith bob nos Sul yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Cysylltwch â'n harweinydd, Wil Morus Jones, (Pontypridd 404001) neu Emlyn Jones (Bargoed 833769).


LLYFR

3

HTV CYMRU WALES

Llyfr y flwyddyn i'r plant - gan lyfrwerthwyr led-led Cymru

## CARREG FILLTIR

Eleni, bydd Ysgol Feithrin Y Waun a'r cylch yn cyrraedd carreg filltir nodedig yn ei hanes. Hon, wrth gwrs, yw'r ysgol hynaf ei thras ymhlith holl ysgolion meithrin Caerdydd. Er mis Medi 1951, pan agorwyd yr ysgol feithrin gyntaf bu cannoedd o ddinasyddion bach yn eu tro yn mynychu'r sesiynau boreol.

Ym 1964 llwyddwydd i sicrhau gwasanaeth arbennig iawn, sef Mrs. Nesta Chappel, un a fu mewn cysylltiad agos â'r ysgol feithrin o'r cychwyn cyntaf. Hi, yn anad neb, gyda'i brwdfrydedd dros ei gwaith a'i hymroddiad dyfal dros y blynyddoedd gyda'r disgyblion a fu dan ei gofal sy'n gyfrifol am yr arbenigrwydd sy'n perthyn i Ysgol Feithrin Y Waun.



Yn ddiweddar, fodd bynnag,cafodd Pwyllgor Rhieni 1979-80 glywed gan Mrs. Chappel ei bod yn bwriadu ymddeol ar ddiwedd y tymor hwn. Dyma, felly, dorri'r cysylltiad clos a di-dor a fu rhyngddi a'r ysgolion meithrin dros gyfnod o 26 mlynedd. Gan y bydd hyn yn ddigwyddiad o bwys yn hanes yr ysgol fe benderfynodd y pwyllgor ei nodi mewn ffordd arbennig er mwyn talu teyrnged ddyladwy am y fath wasanaeth. Bwriedir cyflwyno tysteb i Mrs. Chappell mewn Noson Gymdeithasol a gynhelir yng Ngh› Ngholeg Cyncoed ar nos Wener, Gorffennaf 4ydd, 1980.

Os carech chi gyfrannu at y gronfa hon, cysylltwch â'r Trysorydd, Mr. Owen Jenkins, 67, St. Anthony Road, Y Waun, cyn Mehefin 30ain, os gwelwch yn dda. Ond os am sicrhau tocyn ar gyfer y noson, cysyllter ag unrhyw un o rieni'r ysgol.




TIM CWIS LLYFRAU YSGOL LLANHARI. AIL YNG NGHYSTADLEUAETH Y CYNGOR LLYFRAU. Nichola Williams, Bethan Harris, Nest Scourfield, Rhian Goodfellow. Llongyfarchion cynnes iawn i'r tîm ac i'r ysgol ar wneud mor dda.



# CROESAIR Y DINESYDD

## Rhif 4



### gan ap Lewsyn

Ar Draws

1. Teitl nofel gan I.Ff.E. (6,1,6)
7. Aeth W.G.? Naddo. Newidiodd i gael cefnogaeth (9)
9. Eisteddle'r dinod (a'r ynadon) (5)
11. "Mae'r nos yn --" (2)
12. Cerberws? (2)
13. Y sgert gwta gyntaf erioed oedd ..... ..... (4,3) (Gweler 8 i lawr)
14. Y fan draw ble cei di lys barn (7)
16. Byddai yn mynd (2)
17. Nid yw hwn mor uchel ar yr ysgol â thithau (5)
19. Lodes bechadurus? (5,4)
21. Canu tawel Elen yn grwn (5)
22. Roedd meirwon yn gymysg â hwn, yn ôl RWP (5,1,3)
23. Pe oedech yn hir a chyffrous, ni ddoi hwn yn ôl (5)
26. Eich cyflwr a'ch trigfan, a llawer o wahaniaeth (3)
27. Un â thro'n y ddadl, megis Descartes? (7)
29. Wyla tad yn doredig wrth ysgrifennu siec (7)
30. Ymyl a ffin (2)
32. Y mae rhywrai amhersonol yn dwyn (5)
33. Nid llaw sy'n gofyn yn eger, ond cawodydd Ebrill (6,3)
34. Un sy'n arddel yr arwyddair "DWR, Y LLW RYM WRTHO" (13)

I Lawr

1. Cyfrol arall gan I.Ff.E. (3,4'1,5)
2. Byddai hon yn arfer mynd at Bistyll y Llan (4,3)
3. Tyllau mawr lle yfodd eog gwyllt (7)
4. Gwneud o ddim, meddai "Rhodd Mam" . . . . . . (4)
5. . . . . a dyma'r rodd a gyflwynodd Mam (7)
6. Diod y duwiau a'r gwenyn (7)
8. Gŵr y ferch yn Nymbar 13 (3)
10. Ofer-gredinwyr (13)
12. Codwr pwysau (5)
15. Coes seneddwr, braich capelwr (5)
18. Yr hyn y mae bachgen addawol yn ei wneud (3)
19. Gallai meddyg droi i'r swydd hon (5)
20. "Eu --- a folant" (3)
21. Selog (5)
23. Un o'r pump nad oedd yn ffôl? (4,3)
25. Mae doethur mewn diwinyddiaeth yn ildio ac yn dangos sut y byddid yn dosbarthu pethau (7)
28. Gwlad yr aderyn o'r wy? (5)
29. Cwmni (4)

---

Datrysiad yn y rhifyn nesaf. Tocyn llyfrau (£2) am y datrysiad cywir cyntaf a ddaw. Anfoner at y Golygydd.

---

Croesair y Dinesydd, Rhif 3

Datrysiad

Ar Draws: 1. Creigle; 4.adnabod; 9.naill (llygad barcut y Golygydd yma yn cywiro'r Gymraeg ac yn camarwain y datrysydd); 10.sirol; 11.odli; 12.wae; 13.mintys; 14.clwy; 15.ddrwg; 16.asb; 19. cydwastadrwydd; 21.tas; 25.banc; 27.osod; 28.brigâd; 29.oer; 30. lloer; 31. reiol; 32. unig; 33. gwanhau; 34.orielau.

I Lawr: 1.cynllwyn; 2.etifedd; 3.lastig; 5.dilysu; 6.bodoli; 7.deisyfu; 8.protestaniaid; 13. mwdwl; 16.ast; 17.bas; 18.troad; 20.troellog; 22.peryglu; 23.bore da (gwall oedd rhoi (6) yn lle (4,2)); 24.aberfa; 25.baglor; 26. cornel.



Vaseem Hakeem, y Gymraes o Abergele, a golygyddes "Leech", cylchgrawn myfyrwyr y Coleg Meddygol, y clywsoch amdani yn Dinesydd Mai, ("Manion o'r Mynydd Bychan").

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anerson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel. 753695), gydag enwau, dyddiad, ac amser. etc.

(Un a aeth o'n plith i Afallon y F
llythyr isod, sef Nia Hall William
amddiffynnydd glew yn Nia, a bod g
bethau da i'w dweud am y ddinas).

## GAIR C

Annwyl Ddinasyddion,

Bum yn meddwl sgrifennu pwt o lythy
busnes o drio setlo yn Aberystwyth
wedi mynd. Fe aeth pethau yn y tŷ
Dewiswyd papur a'i osod. Cafwyd yn
oedd y dewis - er bod y blodyn mawr
sgwaryn papur yn y siop, peth arall
oren, dwy droedfedd o led yn blas ta
bu tawelwch mawr ynglŷn â'r mater f
yn y diwedd mae'n siwr.

O safbwynt 'setlo' dwn i ddim yn iawn ym mha gyflwr rydym ni, ond fe ddigwyddodd un peth yr wythnos ddiwetha' sy wedi peri inni feddwl fy mod ar y ffordd i setlo os nad ydw i wedi cyrraedd - dwi wedi danfon am gatalog archebu-drwy'r-post! I egluro. Fe ddywedodd fy chwaer-yng-nghyfraith wrthyf fi cyn inni symud "You'll have to set a mail-order catalogue when you come to Aberystwyth, you know, everybody has one". Ydy hynny'n bosibl, medde fi. Beth oedd ganddi, wrth gwrs, oedd diffyg Marks a B.H.S. yn Aberystwyth a hynny, er cystal rhai siopau yma, yn cyfyngu ar ddewis. Cyn hir sylweddolais ei bod yn hollol bosibl bod 'pawb' yn berchen catalog o'r fath. Tua mis Medi fe ddechreuodd yr amlenni ddod drwy'r drws, amlenni llachar o Lerpwl, Preston West Hartlepool. Yn ystod y gaeaf cynyddodd y llenyddiaeth ar y ddesg. Daeth llythyrau o gwmniau Craig, Kays, Mills, Littlewoods bob un â'i gynigion hudolus, catalog gyda throad y post (heb ymrwymiad o fath yn y byd) ynghyd ag addewid o ddeg y cant o ostyngiad gyda'r archeb gyntaf ac anrheg o lwy bren newydd sbon a fyddai'n ateb holl broblemau coginio hyd dragwyddoldeb. Cyfeiriwyd y cynigion nid ataf fi ond at gyn-berchennog y tŷ 'ma. (Oes yna gyfraith sy'n gwahardd agor cylchlythyrau rhywun arall tybed?). O dipyn i beth dechreuais deimlo dipyn yn amddifad, allan ohoni. Pryd y cawn i fy nerbyn yn ddarpar-gwsmer yn Aberystwyth? Holais o'm cwmpas. Yn wir, yn wir roedd catalogau yn rhan o fywyd-pob-dydd. Daeth y diwrnod mawr - llythyr wedi ei gyfeirio'n bersonol ataf fi. Gwirionais yn lan; cyn pen awr dyna ddilyn y cyfarwyddiadau, a phostio'r stamp bach arian a fyddai'n ateb drostof y cwestiwn - oeddwn i am fod yn gwsmer i'r cwmni archebu? Yes!

(Un a aeth o'n plith i Afallon y Fro Gymraeg dro yn ôl yw awdur y llythyr isod, sef Nia Hall Williams. Gwelir fod gan y 'Peth Drwg' amddiffynnydd glew yn Nia, a bod ganddi hi, fel y Dyn Dwad Dros Dro, bethau da i'w dweud am y ddinas).

# GAIR O BANT

Aberystwyth, Mai, 1980

Annwyl Ddinasyddion,

Bum yn meddwl sgrifennu pwt o lythyr atoch ers tro byd ond rhwng y busnes o drio setlo yn Aberystwyth a chael trefn ar y tŷ, mae'r amser wedi mynd. Fe aeth pethau yn y tŷ yn o lew nes dod at y gegin. Dewiswyd papur a'i osod. Cafwyd yn fuan iawn mai camgymeriad mawr oedd y dewis - er bod y blodyn mawr lliwgar yn ddeniadol iawn ar y sgwaryn papur yn y siop, peth arall oedd rhesi a rhesi o grysanths oren, dwy droedfedd o led yn blastar ar bob wal! Tynnwyd y papur a bu tawelwch mawr ynglŷn â'r mater fyth er hynny. Paent gwyn fydd hi yn y diwedd mae'n siwr.

O safbwynt 'setlo' dwn i ddim yn iawn ym mha gyflwr rydym ni, ond fe ddigwyddodd un peth yr wythnos ddiwetha' sy wedi peri inni feddwl fy mod ar y ffordd i setlo os nad ydw i wedi cyrraedd - dwi wedi danfon am gatalog archebu-drwy'r-post! I egluro. Fe ddywedodd fy chwaer-yng-nghyfraith wrthyf fi cyn inni symud "You'll have to set a mail-order catalogue when you come to Aberystwyth, you know, everybody has one". Ydy hynny'n bosibl, medde fi. Beth oedd ganddi, wrth gwrs, oedd diffyg Marks a B.H.S. yn Aberystwyth a hynny, er cystal rhai siopau yma, yn cyfyngu ar ddewis. Cyn hir sylweddolais ei bod yn hollol bosibl bod 'pawb' yn berchen catalog o'r fath. Tua mis Medi fe ddechreuodd yr amlenni ddod drwy'r drws, amlenni llachar o Lerpwl, Preston West Hartlepool. Yn ystod y gaeaf cynyddodd y llenyddiaeth ar y ddesg. Daeth llythyrau o gwmniau Craig, Kays, Mills, Littlewoods bob un â'i gynigion hudolus, catalog gyda throad y post (heb ymrwymiad o fath yn y byd) ynghyd ag addewid o ddeg y cant o ostyngiad gyda'r archeb gyntaf ac anrheg o lwy bren newydd sbon a fyddai'n ateb holl broblemau coginio hyd dragwyddoldeb. Cyfeiriwyd y cynigion nid ataf fi ond at gyn-berchennog y tŷ 'ma. (Oes yna gyfraith sy'n gwahardd agor cylchlythyrau rhywun arall tybed?). O dipyn i beth dechreuais deimlo dipyn yn amddifad, allan ohoni. Pryd y cawn i fy nerbyn yn

ddarpar-gwsmer yn Aberystwyth? Holais o'm cwmpas. Yn wir, yn wir roedd catalogau yn rhan o fywyd-pob-dydd. Daeth y diwrnod mawr - llythyr wedi ei gyfeirio'n bersonol ataf fi. Gwirionais yn lan; cyn pen awr dyna ddilyn y cyfarwyddiadau, a phostio'r stamp bach arian a fyddai'n ateb drostof y cwestiwn - oeddwn i am fod yn gwsmer i'r cwmni archebu? Yes!

Ond, o ddifri, mae na fwy i setlo na derbyn nad oes 'ma na Farks na B.H.S. Mae'r awydd i wybod be sy'n digwydd yng Nghaerdydd yn parhau. Mi fyddai'n bachu ar bob cyfle i gael tipyn o'r hanes. Diolch yn fawr i bawb sy wedi galw, ffonio a dod i fwrw'r Sul yn ystod y misoedd diwetha. Daliwch ati, os gwelwch yn dda.

Hyd yn oed pe bawn yn rhoi fy mryd ar anghofio Caerdydd a'r gymdeithas - a 'wela'i mo hynny'n digwydd byth - prin y buasai'n bosibl gwneud hynny. Hyd y gwela'i Caerdydd yw prif destun trafod y genedl ar hyn o bryd. Fel cymaint o frenhinoedd '1066 and All That' mae'r ddinas a'i Chymry naill ai'n cael ei chyfri'n Beth Da neu'n Beth Drwg. Mae'n anodd deall y rheswm am y diddordeb sydyn ac er nad oes eisiau sgrifennu thesis M.A. am y peth (fe ddaw hynny, fe ddaw) mae pellter yn magu awydd i amddiffyn. 'Da i ddim ar ol pob sgyfarnog, ddim ond i sylwi ar un agwedd o'r ddadl. Rwy'n casglu o'i erthygl 'Cymraeg y Pridd a'r Concrit' (Barn, Nadolig 1979) fod Gwynn ap Gwilym yn credu mai Peth Drwg yw Caerdydd ar sail

a) perfformans gwael y dinasyddion yng nghystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol (yn llenyddol felly)

b) analllu'r ddinas i gynhyrchu mwy na dau lenor - Bobi Jones ac Alun Llywelyn Williams.

Tydi cynhyrchu dau lenor ddim yn swnio'n record anobeithiol o dila (os mai dau ydi'r record - cwestiwn arall) wrth gofio mai o bwll bach iawn o Gymry Cymraeg y daeth y pysgod mawr 'ma. Mae'r pwll yn fwy o lawer erbyn hyn ac yn cynnwys y cannoedd o blant sy wedi bod ac sydd heddiw yn "un o ysgolion cynradd mwyaf Ewrop" (John Davies yn sôn am Gaerdydd yn Y Faner, Mawrth, 1980). Does neb o'r bobl ifainc eto wedi eistedd yng Nghadair Eisteddfod Genedlaethol ond ar sail eu perfformans yn Eisteddfodau'r Urdd mae'n anodd credu nad oes sawl un yn eu plith na fyddwn yn medru dweud amdanyn nhw ymhen amser - dyna ŵr (neu wraig) a ryfygo osod mewn geiriau rai o feddyliau'r hil'. Ymhen amser - fe ddylai carfan y Peth Drwg gofio mai dinas a chymdeithas newydd yw Caerdydd - fe fydd yn ddigon o bryd ymhen can mlynedd i ddechrau pwyso a mesur ei chyfraniad i'r genedl. Ar hyn o bryd mae angen llonydd - "hands off Caerdydd", fel petai -

llonydd i fod yn gymdeithas go iawn cyn i neb fynd â restru gorchestion a'u cael yn brin.

Rhaid imi dewi cyn i'r llith fynd yn bregeth! Hwyl fawr i chi i gyd.

Cofion,

Nia (Hall Williams)

O.N. Wrth feddwl am gynhyrchu beirdd a llenorion hoffwn wybod - ydi Arfon yn cyfri ei hun yn fardd 'o Gaerdydd'?

# GŴYL TRELAI '80

Dwy flynedd yn ôl fe gynhaliwyd gŵyl yn Nhrelai i ddathlu dyfod yr Eisteddfod Genedlaethol i'r Brifddinas. Yn sgil llwyddiant ysgubol yr wyl hon, fe drefnir eleni eto wyl arall undydd yn Nhrelai - y tro yma yn gysylltiedig â'r dathliadau creu Caerdydd yn ddinas, saith deg pum mlynedd yn ôl. Bellach mae'r trefniadau yn gyrru yn eu blaen ac yn ddiamau fe baratoir gwledd i'w chyflwyno gerbron brodorion Trelai a dinasyddion Caerdydd yn gyffredinol.

Oherwydd apêl arbennig yr ŵyl gyntaf, fe dalwyd amdani i raddau helaeth iawn drwy garedigrwydd a haelioni y rhai a gymerai ran yn rhaglen y dydd, rhyw dri chant ohonynt. Eleni, mae'r stori yn un dra gwahanol. Rhaid crafu pob ceiniog i gynnal yr ŵyl hon o bob cyfeiriad posibl. Mae'r pwyllgor gweithgar eisioes wedi crynhoi rhyw filiynau o geiniogau drwy gynllun y "blychau Smarties". Dosbarthwyd tiwb yr un o'r fferins hyn yn rhodd i ryw ddwy fil o blant ysgol yn Nhrelai, a chyda chefnogaeth brwd prif-athrawon yr ardal (mae deunaw ysgol yn Nhrelai) awd ati i lenwi'r blychau bach â cheiniogau. Fel canlyniad, mae mwyafrif llethol o gartrefi Trelai yn gwybod am yr ŵyl a'r rhieni yn taflu'u hunain yn frwdfrydig i gefnogi'r cynlluniau. Dyna'r cam cyntaf.

Cymaint oedd ffydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn y cynllun eleni fel eu bod hwythau wedi addo cymorth ariannol i'r ŵyl, yn ogystal â diwydiannau lleol, - Wiggins Teape yn bennaf, - a chlybiau, tafarndai, eglwysi a chapeli yr ardal. Fe gynhelir rhan fawr o'r ŵyl yn yr awyr agored, ond fe ddefnyddir hefyd amryw o neuaddau, eglwysi ac ysgolion i gynnal amrywiaeth helaeth o gyngherddau a gweithgareddau yn ystod y dydd.

Mae dau aelod o'r pwyllgor yn Gymry Cymraeg, ac fe gynhelir cyfarfodydd y pwyllgor yng nghartref y Cadeirydd, Mr. Graham Harwood, lle mae pedwar aelod o'r teulu wedi dysgu Cymraeg. (Mae'n siwr fod llawer yn cofio anerchiad hudolus Miss Jill Harwood yn agoriad swyddogol Pabell y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol). Mae'n naturiol, felly fod yn rhaglen yr ŵyl le sylweddol i'r iaith Gymraeg ac i weithgareddau sy'n Gymraeg eu naws. Fe fydd tri chwmni dawns werin yno - o Aelwyd Caerdydd, Brynaman a Brynmawr. Fe fydd Mabsant yno hefyd a Chwmni Theatr Powys a Chôr Meibion Caerdydd yn ogystal â nifer o gorau eraill. Mae cwmni pypedau Masquerade yn dod ac fe fydd elfen ryngwladol gydag ymddangosiad am y tro cyntaf ym Mhrydain grwpiau dawnsio o Bali ac India, ac o ddiddordeb arbennig iawn, cwmni dawns a chân Affricanaidd o ardal Sain Pawl ym Mryste lle bu'r cyffro mawr yn ddiweddar. Fe geir datganiad ar yr organ gan dri gwahanol organydd, a gobeithir yn fuan cwblhau trefniadau i gael Gweithgor o'r Cwmni Opera Cenedlaethol i ymweld â'r ŵyl.

Ond os bydd eich diddordebau yn gorwedd mewn gwahanol gyfeiriadau mae 'na arddangosfeydd o arlunio a chrefftwaith (hyd yn oed cadw gwenyn), a mabolgampau a gorymdaith garnifal drwy'r strydoedd am ddeg y bore. Mae'r cyfan yma - rhywbeth at bob chwaeth!

Fe anrhydeddir ein Gwyl yn Nhrelai gan y Barnwr Dewi Watkin Powell. Cymaint oedd ei fwynhad a'i bleser yn yr ŵyl o'r blaen fel ei fod wedi cytuno y tro hwn i fod yn noddwr i'n gwyl, ac mae Mr. Jac Williams, Adran Adloniant y BBC wedi rhoi'n helaeth o'i brofiad enfawr i'n cynghori ni ar faterion artistig.
Mae croeso i unrhyw rai ymhlith darllenwyr 'Y Dinesydd' ein cefnogi ni'n ariannol. Mawr yw ein hangen. Ond os yw'r god yn wag, wel, gweddiwch am haul i dywynnu arnom ar DDYDD SADWRN, 12FED O ORFFENNAF yn Nhrelai. Ac edrychwn ymlaen i weld Cymry Caerdydd wrth eu cannoedd yn cefnogi'r ŵyl y tro hwn fel y gwnaethont y tro diwethaf.

Yn ddiamau, fe fydd yr ŵyl hon yn gosod Trelai yn sicr ac ymhell ar y blaen yn cynnal gweithgareddau diwylliedig ein prifddinas.

# Swyddog Newydd

Penodwyd Mr. Arfon Jones, 27 oed, o Lanedeyrn, Caerdydd, yn Swyddog Ieuenctid yr Annibynwyr. Y mae'n enedigol o Uwchaled, ac wedi ei addysgu yn Ysgol Ramadeg Dinbych a Choleg y Brifysgol ym Mangor lle graddiodd mewn Cerddoriaeth a Diwinyddiaeth.

Cyn ei benodi yn Swyddog Ieuenctid bu'n gweithio gyda'r Cyngor Unedig ar Alcohol a chyffuriau eraill, a thrwy'r gwaith hwnnw cafodd brofiad helaeth o weithio gyda phobl ifanc. Meddai Arfon - "Er fy mod yn ystyried fy ngwaith gyda'r Cyngor Unedig ar Alcohol yn bwysig dros ben, teimlais bob amser y carwn ddod o hyd i swydd fyddai'n rhoi cyfle i mi rannu a chyflwyno pob agwedd o Efengyl Iesu Grist i eraill. Gwelaf y swydd hon fel cyfle i hyrwyddo gwaith cenhadol ymhlith pobl ifanc Cymru, Ac rwy'n awyddus i wynebu her y sefyllfa bresennol".



Disgyblion Chweched Dosbarth Rhydfelen a enillodd Ysgoloriaethau Prifysgol eleni: Rhian Wyn Williams, Risca : Prif Ysgoloriaeth Evan Morgan - Aberystwyth, a Phrif Ysgolor; Gwynfor Rees, Aberdar : Ysgoloriaeth Clark - Aberystwyth; Mared Owen, Sain Ffagan : Ysgoloriaeth Evan Morgan - Aberystwyth; Rhian Lewis, Yr Eglwysnewydd : Ysgoloriaeth Agored - Abertawe; Rhian Ellis, Penrhys : Ysgoloriaeth Pritchard - Aberystwyth.

# Y Clustiau Cŵn yn Torri Tir Newydd

Dyma grwp ifanc newydd o'r cymoedd sydd yn prysur wneud enw i'w hunain. Er pan ffurfiwyd hwy ym mis Medi y llynedd, mae'r grwp eisoes wedi ennill cystadleuaeth grwp pop 'Yr Awr Fawr', rhaglen gan BBC Cymru, ac fel gwobr cawsant wneud record, sydd ar fin cael ei rhyddhau. Dysgodd y grwp lawer yn y stiwdio recordio wrth y Cynhyrchydd Des Bennett. Wedi i'r grwp fod yn recordio, cafodd Y Dinesydd air â Gareth Potter, canwr y band.

"Aeth y sesiwn yn dda, er bod rhaid inni recordio rhai rhannau sawl gwaith er mwyn cael y swn cywir".

Sut daeth y grwp at ei gilydd?

"Rydym wedi bod yn canu gyda'n gilydd ers sbel. Roedd Ralf, y gitarydd; John, y chwaraewr bas, a Karl, y drymiwr, mewn grwp o'r enw 'Embryo' ym Merthyr a dyma ni'n penderfynu ffurfio grwp Cymraeg er mwyn cystadlu yng nghystadleuaeth 'Yr Awr Fawr'. Wedyn ymunodd Brett â ni, achos roedd eisiau elfen weledol drawiadol arnon ni ac roedd Brett yn cyflawni'r dibon hwn".

Mae'n amlwg fod tipyn o sbarc a hiwmor yn perthyn i'r bechgyn dawnus hyn, wrth enw'r grwp. Pam yr enw hwn?

"Wel roedd Karl a Ralf yn trafod ar y ffôn un dydd, a sylwodd Karl fod un o glustiau ei gi yn hongian i lawr, ac fe alwodd e'r grwp yn 'Clustiau Cŵn'.

Oes adlewyrchiad o hyn yng ngherddoriaeth y grwp?

"Nac oes, a dweud y gwir. Roc 'cash register' yw'n cerddoriaeth, achos wrth berfformio, rydym yn breuddwydio am glywed tincial persain 'cash register' yn y cefndir. Yn anffodus ni wireddwyd y freuddwyd hon hyd yma".

Un arall o freuddwydion y grwp sydd eto heb ei gwireddu yw ymddangosiad ar HTV Cymru. Mae HTV wedi gwrthod caneuon y grwp, am eu bod yn 'rhy gryf' yn ol Gareth.

"Mae'ng nghaneuon i'n sôn am fywyd".

O, diddorol iawn wir. Gareth sy'n ysgrifennu geiriau'r caneuon, er enghraifft, 'Ci wedi marw' Can sensitif ei naws am gi wedi trigo yw hon, a cheir ymdriniaeth o ymlwybriad amser yn llinach R. Williams Parry.

"Dyw hyn ddim yn fwriadol, ond gallaf dderbyn bod y geiriau yn annymunol i rai pobl - yn y dyfodol byddwn yn symud at arddull debyg i Gôr Meibion Pontarddulais".


Mae hyn yn beth anarferol i grwp roc i'w wneud, ond cyfeirio at broffesiynoldeb a dull gwisgo'r côr oedd Gareth, nid y caneuon.

Beth bynnag, mae'r grwp yn edrych ymlaen at y Steddfod, lle y bwriadant berfformio. Ewch i'w gweld!

- Dafydd Saer.



Karl Pulman, John Plwtoniwm, Gareth Potter, Ralf Pulman, Dafydd Saer, Brett Lewis.
Dafydd Saer yn cyflwyno Tlws Gari Beard i'r Grwp fel gwerthfawrogiad o'u gorchest ar 'Yr Awr Fawr'.



# GWNES ADDEWIDION FIL . . .

Wn i ddim faint o ddarllenwyr Y Dinesydd sydd wedi cael cyfle erbyn hyn i flasu cynnwys Cymraeg ein Radio Leol newydd, sef Darlledu Caerdydd.

Mae'r Dinesydd wedi bod yn holi hwn a'r llall, a braidd yn gymysg yw'r ymateb.

Rhai o'r bobl ifanc yn gweld y rhaglenni pop yn datblygu'n ddigon addawol, ac eraill yn cwyno oherwydd rhyw lacrwydd cyffredinol. Ond mae'r to hyn dipyn yn fwy beirniadol - a'r gwyn a glywais fynychaf oedd nad oedd y cwmni fel pe bai wedi deall natur y bywyd Cymraeg yn y ddinas - hynny yw, os mai adlewyrchu hwnnw yw ei fwriad.

Yn anffodus, mae'r Cwmni wedi gorfod cychwyn gyda chriw o bobl ifanc digon ymroddgar, ond rhai sy ddim eto wedi meistroli'r grefft o ddarlledu. Does gyda ni ond gobeithio y daw amser i goethi Cymraeg ymron bob un ohonyn nhw. Yn y Gymru sydd ohoni, mae pobl yn disgwyl clywed ambell air digon od - fe'u clywir yn rheolaidd o du'r BBC a Harlech, ond mae ambell i frawddeg Gymraeg a ddaw o Darlledu Caerdydd yn peri i berson chwerthin yn anghrediniol cyn ystyried torri allan i wylo!

Gwaetha'r modd, rhoddir yr argraff nad yw'r darlledwyr dibrofiad hyn wedi ystyried ymlaen llaw beth maen nhw am ei ddweud. O ganlyniad merwinir clustiau pawb â man glebran. Gall Y Dinesydd eu sicrhau y gall clustiau pobl Caerdydd, rhai o bob oed, dderbyn rhywbeth tipyn mwy sylweddol nag a glywant ar hyn o bryd - ac maen nhw'n dechrau blino ar glywed yr un recordiau o hyd ac o hyd ac o hyd.

Wn i ddim ble mae'r worcshops y bu cymaint o sôn amdanyn nhw. Roedd rhywun yn cwyno yn Y Dinesydd beth amser yn ôl nad oedd y Cymry Cymraeg yn gwneud digon i sicrhau bod eu llais yn cael sylw ar yr awyr. Os yw hyn yn wir, rhaid i rywun wneud rhywbeth cyn i'r oriau gael eu hymestyn o hanner awr y dydd i awr a hanner. Gobeithio nad y dogn arferol o recordiau a mân siarad fydd ar bob rhaglen.

Rwy'n digwydd bod yn godwr bore, hyd yn oed ar y Sul, ac rwy i, o'r herwydd, wedi cael cyfle i wrando ar y tair sesiwn Sul gyntaf. Roeddwn i bob amser wedi meddwl fod chwarter awr i'r plant yn dechrau am chwarter i wyth (hyn yn dilyn sesiwn i'r rhai mewn oed, sesiwn sy'n dechrau am saith!).

Un Sul, dyma'r cyflwynydd, Andy Bell, yn chwarae record o sŵn y môr yn torri ar draeth ac yn dweud nifer o weithiau fod y môr yn beryglus. Yna, fe roes y gorau i'r record gan ddweud ei fod wedi rhuthro'n ôl i'r stiwdio. Dywedodd unwaith yn rhagor fod y môr yn beryglus,cyn chwarae record am y môr. A dyna'r chwarter awr (sic) ar ben. Wn i ddim a yw'n credu y gellir twyllo plant mor hawdd â hyn! Ond y Sul dilynol, roedd pethau'n deneuach fyth, gyda dwy record yn unig. A does fawr ddim blas Sul ar y sesiwn i'r oedolion. Dim ond clebran, clebran, am goleg Abertawe ac am griced ac ati - a chwarae disgiau. Roedd rhai ohonom yn meddwl y byddem yn cael pytiau o newyddion am beth oedd cynlluniau'r gwahanol eglwysi ar gyfer y Sul, ac y gellid cael mwy o naws grefyddol ar ei hyd i'r sesiwn hon. Os mai arnom ni y mae'r bai, rhaid inni dorchi llewys.

Mae'n iawn, wrth reswm, rhoi cyfle i bobl gymryd at yr awenau ac ennill eu profiad wrth fynd ymlaen - ond da chi, gyflwynwyr, cofiwch eiriau Wil Bryan, yr athronydd ifanc yn Rhys Lewis. Ei gyngor ar i bobl fod yn "true to nature". Peidiwch, da chi, â cheisio efelychu sêr Radio Un ac ati. Byddwch yn chwi eich hunain! Mae un ferch na wn i mo'i henw, yn siarad fel pe bai mewn perlewyg oesol. Hyd yn oed wrth fracsan trwy'r newyddion y peth cyntaf yn y bore.

A da chi, Radio Caerdydd - beth am gyflawni eich addewidion fil? Mae'r Dinesydd yn gwybod fod rhai pobl wedi cynnig eu gwasanaeth, darlledwyr profiadol, rhai sydd a rhywbeth i'w ddweud. Oni ddaw ambell raglen mwy sylweddol yn fuan, byddwch yn darganfod nad oes neb yn gwrando arnoch chi!

Aeth Y Dinesydd mor bell â gofyn i'r rhai hynny sydd yn gwrando ar y rhaglenni Saesneg - a chael cwynion hynod o debyg. Byth yn gwybod pa bryd i ddisgwyl sbot arbennig - miwsig, miwsig o hyd... a rhyw foi'n mynnu galw Abertileri - yn Abertillery - a'i ynganu fel Distillery! Dyna sy'n dod o benodi pobl sy ddim yn lleol ar gyfer cyflwyno rhaglenni lleol oedd cwyn un person.

### CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mr. Gwilym Humphreys a'i deulu ar golli yn ddiweddar ei dad, y Parchedig James Humphreys, un o gewri ei enwad, a gwas ffyddlon i'w genedl.

# MANION

SIOE SYLWEDDOL

Cynhaliodd Ysgol Feithrin Llysfaen Sioe Ffasiwn sylweddol yn ysgol gyfun Glantaf yn ddiweddar - sioe gan Sivinia. Tywysydd y cyfan oedd Janet Parry-Jones. A'r elw o yn agos i £100 tuag at yr ysgol feithrin yn Llysfaen.

HENAINT NI DDAW......

Derbyniodd Capel Heol y Crwys bedwar ar bymtheg o bobl ifanc yn aelodau cyflawn yn ddiweddar, ac mae rhif yr aelodaeth erbyn hyn dipyn dros y pum cant. Eto, mae cryn dipyn o bryder yn eu plith oherwydd bod cyfuniad o oed a materion eraill fel tir yn symud yn peryglu seiliau'r adeilad. Gallai'r gost o atgyweirio fod tua'r £200,000. Eto, mae hwn yn swm bychan o'i gymharu a chost posibl codi adeilad newydd. Gallai hyn fod dipyn dros hanner miliwn o bunnoedd. Mae'r swyddogion wedi sefydlu dau bwyllgor yn ddiweddar i symud ymlaen i geisio dehongli'r broblem. Mae un pwyllgor - sef y pwyllgor datblygu, yn edrych ar yr ochr adeiladol, a gwaith y llall yw sicrhau cronfa ar gyfer yr argyfwng.

# Darlledu Caerdydd

Yn nghyfarfod nos Iau, 15 Mai, Gweithgor Cymraeg Darlledu Caerdydd (CBC), cafwyd gwybod y bydd rhaglenni Cymraeg y diwetydd yn cael eu hymestyn o'r hanner awr presennol i awr a hanner yn y dyfodol agos. Fe'u darlledir bob nos rhwng 8 a 9.30 o'r gloch. Miwsig fydd bennaf rhwng 8 a 9 a rhaglenni llafar rhwng 9 a 9.30.

Apelir i'r Cymry Cymraeg ddefnyddio'r orsaf drwy godi ffôn neu alw i mewn, a bydd croeso i chi anfon unrhyw syniadau a gewch i ddatblygu'r rhaglenni Cymraeg at W.J. Jones, Ffôn: 756282. Ewch ati!

Wrth gwrs, mae tipyn o or-ddweud yn hyn. Mae gan yr orsaf nifer o gyflwynwyr crefftus a da - nifer o raglenni sydd â graen arnyn nhw. Gwaetha'r modd, mae ambell i erthygl yn torri i'r wyneb mor sydyn, nes bod pobl yn tueddu i anghofio am y pethau da.

# CYFEILLION Y THEATR GYMRAEG

Cychwynnwyd Cyfeillion y Theatr Gymraeg yn wreiddiol er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau Cymraeg yn y Brifddinas; a chodwyd tâl isel er mwyn talu am gludo'r wybodaeth am yr holl weithgareddau i gartrefi'r aelodau.

Buan iawn y sylweddolwyd mai ofer oedd sefydlu peirianwaith cyhoeddusrwydd os nad oedd llawer o ddigwyddiadau theatrig i'w cael yn y lle cyntaf.

Ni fu pwyllgor y Cyfeillion yn hir cyn sylweddoli bod rhaid iddynt ehangu eu maes trwy ddechrau ysgogi a threfnu gweithgareddau. Cysylltwyd ar fyrder â Theatr y Sherman a chael addewid o gydweithrediad.

Felly mae i'r Cyfeillion yn awr ddwy swyddogaeth - 1. helpu i roi cyhoeddusrwydd i ymweliadau Cwmni Theatr Cymru a Theatr Bara Caws ac eraill pan ddont i Gaerdydd a 2. cynnal a threfnu eu nosweithiau eu hunain. Gan mai gwirfoddolwyr yw'r Cyfeillion bydd yr Academi Gymreig, sydd â swyddfa barhaol a staff llawn amser yng Nghaerdydd, yn helpu gyda'r trefnu.

Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd effeithiol i'r gweithgareddau mae angen ehangu'n rhestr lythrebiaeth. Ar hyn o bryd mae gennym dros 150 o enwau ond mae angen llawer iawn mwy. Wnewch chi, felly, os gwelwch yn dda, lenwi'r ffurflen ar waelod yr erthygl a'i dychwelyd i swyddfa'r Academi ar unwaith. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cael digon o wybodaeth ymlaen llaw am y gweithgareddau.

Disgwylir Cwmni Theatr Cymru i'r Sherman ym mis Medi a mis Tachwedd eleni ac ym mis Ionawr 1981. Bydd y Theatr Caricature yn perfformio i blant ym mis Medi a deallwn fod cwmni drama newydd - Drama 81(!) - i berfformio drama newydd ym mis Chwefror 81. Mae hyn yn gadael Hydref a Rhagfyr yn ddiddigwyddiad fel petai. Gofynnwyd felly i ysgol Glantaf roi Cyngerdd ar nos Sul y 5 o Hydref a threfnwyd noson gyda J.O.Roberts a'r Diliau ar y 7 o Ragfyr. Byddwn hefyd yn cynnal noson werin yn yr Arena ddechrau Ionawr.

Y nod yw sicrhau fod o leiaf un digwyddiad Cymraeg bob mis. Nid yn y Sherman yn unig fydd y gweithgareddau - bydd Eisteddfod ar yr 8 o Dachwedd yn Neuadd Goffa Rhiwbeina - un debyg i'r un a drefnwyd llynedd.

Byddwn yn gofyn i Gymdeithas Celfyddydau'r De-ddwyrain am gymhorthdal a byddwn yn derbyn cyfran o'r derbyniadau oddi wrth y Sherman. Ond nid oes sicrwydd y ceir help gan y naill ac ni wyddys a fydd y llall yn ddigon i glirio'r costau. Mae peth arian gan y Cyfeillion a cheir ychydig o gyfraniad gan yr Academi.

Gellwch anfon cyfraniad gyda'r ffurflen os ydych am ein helpu gyda'r costau, er nad ydym yn pwyso arnoch i wneud o gwbl. Y cyfraniad pwysig yw mynychu'r gweithgareddau a sicrhau cefnogaeth deilwng i ddramau Cymraeg yn y Brifddinas.

- Ann Beynon, Ysgrifennydd yr Academi.

GWEITHGAREDDAU THEATRIG CYMRAEG YNG NGHAERDYDD

Wnewch chi os gwelwch yn dda ychwanegu *fy enw i/ein henwau ni at eich rhestr cyhoeddusrwydd

*Enw/Enwau ............................................

Cyfeiriad ............................................

.....................................................

..............................Rhif ffôn:.............

Dychweler i'r Academi Gymreig, 4 Llawr, Adeilad Cory, Heol Bute, Caerdydd. CF1 6QP.

*Dileër fel bo angen.

# COLOFN Shân Emlyn

Dyma hi'n dymor yr arholiadau unwaith eto a miloedd o bobol ifanc mewn colegau ac ysgolion yn stryffaglio i ddysgu ffeithiau a chywasgu gwaith blynyddoedd o astudiaeth i'w pennau. Druan ohonynt, a thrueni hefyd mai trwy chwys ei wyneb y bwyta dyn ei fara. Rhyfedd o fyd yw hi ynte - rhai yn dioddef gorthrwm gormod o waith, ac eraill yn teimlo eu bod yn cael eu diraddio ac yn colli urddas am nad oes gwaith i'w gael ar eu cyfer. Rhyw "fan gwyn man draw" yw hi ar y rhan fwyaf ohonom.

Diolch bod yna rai pethau mewn bywyd sy'n codi rhywun o gaethiwed amgylchiadau pob dydd i dir uwch rywfodd, lle bo enaid dyn yn cael cyfle i anadlu ac ymlacio. Breintiedig iawn yw y rhai hynny ohonom sy'n gallu ymgolli yn swyn cerddoriaeth neu gelfyddyd arall. Rhyfeddod yw sylweddoli, wrth wrando ar ddarn o gerddoriaeth, fel y mae modd ymgolli'n llwyr a chael llonyddwch - dros dro, beth bynnag - o holl gymhlethdodau bywyd. Caf y profiad yn amal wrth wrando ar ddarnau megis un o simffoniau Brahms neu Requiem Verdi, er enghraifft - o gael fy nghodi i dir uwch a theimlo bod y profiad yn un real, ac yn un oesol - fel petae amser yn aros yn ei unfan am dro a minnau'n gallu trysori'r foment. Rhyfeddol yw meddwl bod yna genedlaethau o'n blaen yn siwr o fod wedi trysori munudau o'r fath ac y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael yr un profiadau hefyd.

Angen tebyg, mae'n siwr, sy'n cyfri bod Mari, wrth adolygu ar gyfer lefel "O" yn cael pyliau o ddiflastod a, phan ddigwydd hynny, mae'n mynd i'r stafell gefn ac yn chwarae'r piano neu wrando ar recordiau ac yn dod allan yn barotach wedyn i wynebu awr neu ddwy o waith caled.

Rhyw feddyliau fel yna sydd wedi mynd a'm bryd yn ddiweddar - a balch wyf o ddeall, wrth sgwrsio a ffrindiau, y teimlant hwythau o bryd i'w gilydd angen am ddihangfa fechan o brysurdeb bywyd. Peth mawr ydy cael digon o ddychymyg i allu ymlacio fel hyn. Pan balla'r dychymyg a phe caniatâ'r boced, braf fyddai cael dianc nid i fyd dychymyg ond cael cyfle i fynd i'm dihangfa arbennig i - sef mynd am dro unwaith eto i unigeddau'r paith!

Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.

## GWYN ERFYL

Ym mis Ebrill, penodwyd Gwyn Erfyl yn Brif Swyddog Cwmni Teledu Harlech yng Ngogledd Cymru. Bydd yn gweithredu o stiwdio T.H. yn yr Wyddgrug, sydd bellach yn bencadlys y Cwmni yn y Gogledd, yn dilyn cyhoeddiad ar y cyd gan T.H.(Cymru) a Chyngor Sir Clwyd.

Wedi'i eni'n fab fferm yn Llanerfyl, Powys ym 1924, cafodd Gwyn ei addysg yn Ysgol Sir Llanfair-caereinion a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth lle graddiodd mewn athroniaeth. Ar ôl cyfnod fel darlithydd yng Ngholeg Harlech, bu'n ymchwilydd ar ran y Bwrdd Glo Cenedlaethol, ac yn ddiweddarach yn Weinidog gyda'r Annibynwyr, pan fu hefyd yn darlledu gyda'r BBC.

Ym 1963, dechreuodd ar ei yrfa ym myd teledu, yn gyntaf gyda TWW ac yna TH, ac yn ystod ei yrfa bu'n gyfrifol am gasgliad eang o raglenni yn Gymraeg a Saesneg, yn eu plith, rhaglenni a enillodd wobr neu sylw arbennig y tu allan i Gymru, megis "The World of Frank Letch", "Pietro Annigoni", a rhaglen ar yr Hebrides.

Bu Gwyn a'i deulu'n byw yn ein plith ers blynyddoedd bellach, ac wrth ei longyfarch ar ei benodiad, cof gennym hefyd am Lisa, a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i'n bywyd, yn enwedig ym myd cerdd dant, ac am eu pedair merch rhadlon. Dymunwn yn dda iddynt oll yn eu cartref newydd.

## CYMRU'R WENALLT

Daeth tymor y gymdeithas hon o wyr Rhiwbeina a'r cylch i ben nos Wener, Mai 9fed. Ei phwrpas ydy cymdeithasu fel Cymry Cymraeg unwaith y mis yng ngwesty'r Pantmawr a gwrando ar siaradwyr o blith Cymry blaenaf y Ddinas gan eu holi a thrafod y pynciau a godir.

Cyflwr ac argyfwng yr iaith heddiw oedd testun Illtyd Lewis; clywsom Elwyn Hughes yn cymharu bwydydd cefn gwlad Cymru'r ddeunawfed ganrif a lluniaeth heddiw; bu Emyr Currie-Jones yn trafod ein dyfodol fel Cymry Caerdydd; clywsom am waith a helyntion cynhyrchydd rhaglenni'r BBC gan Gareth Lloyd Williams; soniodd Iolo Walters wrthym am baratoi a chyhoeddi llyfrau Cymraeg dan nawdd y Cyd-bwyllgor Addysg a bu Raymond Edwards yn adrodd hanes 'Y Dinesydd' a thrafod ei ddyfodol.

Yn anffodus mae ein nifer wedi prinhau yn resynus yn ddiweddar a da fyddai clywed oddi wrth unrhyw wr yng nghylch Rhiwbeina a hoffai ymuno a'r cwmni. Yr Ysgrifennydd yw Iwan Jones, 58 Thornhill Rd., (rhif ffon: 752727).

# CROESO

Fe ŵyr pawb erbyn hyn y bydd teulu 'Cilhaul', sef Alun a Rhiannon Evans, Rhys a Betsan, yn symud i Fangor yr haf yma. Yn wir mae Alun wrth ei waith gyda'r BBC yn y Gogledd eisoes.

Fel cyfle i ddechre dweud ffarwel wrth aelodau Eglwys Minny Street, ac ar yr un pryd manteisio ar ddull i godi arian er mwyn gwneud rhyw newidiadau yng nghegin y capel, fe agorodd y teulu ddrysau eu cartref 'Cilhaul' i'w cyd-aelodau nos Wener, Ebrill 25ain.

Daeth tua chant ynghyd yn swn tannau telyn Betsan, ac yn eu plith nifer da o aelodau newydd ac aelodau ifainc, fel bo'r noson yn gyfle rhagorol i bawb ddod i nabod ei gilydd yn well mewn cymdeithas ddiddan. Paratowyd gwledd ddanteithiol gan chwiorydd yr eglwys; darllenodd Alun un o storiau Dr. Glyn Jones; canodd Pedwarawd Y Wenallt gyfres o dopicaliaid digri; clywyd lleisiau peraidd Carys Williams a Gwyn Hughes Jones a chlec rhythmig llwyau Roy Saer.

Wrth ddiolch i'r teulu am eu croeso twymgalon cyfeiriodd y gweinidog, y Parch D.T.Evans at eu cyfraniad enfawr i fywyd Minny Street dros y blynyddoedd. Mae Caerdydd a'r cylch yn drwm iawn eu dyled i deulu Cilhaul ac anodd fydd i ni yn Eglwys Minny Street lenwi'r bwlch a adawant ar eu hol.

Rhiannon sy'n llawn rhinwedd -
ac Alun
Ran golwg yn fonedd;
Ac o'i heglu i'r golgedd
Yn Cilhaul yn cynnig gwledd.

(Ithel Davies)

- Iwan Jones.

## *DRAMA YN RHYDFELEN*

Ar y cyntaf a'r ail o Fai, perfformiwyd y ddrama Saesneg "Oh What a Lovely War" gan Ysgol Gyfun Rhydfelen. Drama ydyw sy'n tanlinellu erchylltreau'r rhyfel byd cyntaf, trwy gyfrwng deialog ddoniol, a hen ganeuon y cyfnod. Efallai ei bod yn arwyddocaol pan ddyfynnwyd geiriau Waldo Williams ar glawr y rhaglen:

"Pa werth na thry yn wawd
Pan laddo dyn ei frawd?"

O ganlyniad gwaith y cynhyrchwyr galluog, trawiadol oedd effaith y perfformiad a braidd yn ofidus wrth ystyried y sefyllfa fydol bresennol. Roedd pawb yn gytun i'r system o drosglwyddo gwybodaeth i'r llwyfan trwy'r taflunydd a llen lwyddo. Felly rhaid canmol y cwmni am ei ddychymyg a'i wreiddioldeb. Portreadwyd pob agwedd posib o fywyd y rhyfel, o'r ffrynt gorllewinol i'r gymdeithas gyffredin a adawyd ar ôl yn y cymoedd a'r dinasoedd.

Cafwyd cynulleidfa niferus a deallus ar y ddwy noson, ond rhaid hefyd ganmol yr ysgol am ei pherfformio i hen oed y cylch ar brynhawn Iau. Roedd eu hadwaith hwy yn ddrama ynddo'i hun, gwelwyd nifer yn llefain tra'n canu'r hen ganeuon gyda'r actorion. Rhaid gorffen trwy son am yr actorion, yn alluog ac yn ddisgybledig, actorion sydd wedi cynnal dramau'r ysgol yn y gorffennol, ac heb os nac oni bai bydd siwr iddynt lwyddo lawn cystal yn y dyfodol.

Huw Lloyd, 6Ll.

